



FARMING connect cyswllt FFERMIO

RHIFYN I - Ionawr / Chwefror 2016



RHWYDWAITH ARDDANGOS

INNOVIS

Yr wybodaeth ddiweddaraf o'n Safleoedd Arloesedd. Yn y rhifyn hwn – Innovis, un o brif gyflenwyr technoleg bridio defaid diwydiant ffermio'r DU.

SAMPLU PRIDD

Mesurau i gynyddu cynnyrch glaswellt ac i wneud arbedion ar ddwysfwyd a gwrtaith a brynir i mewn.



Tudalen 7. Swyddog Technegol Gethin Prys Davies



Tudalen 8. Digwyddiadau Dewch i weld beth sy'n mynd ymlaen yn eich ardal chi...

CYFLWYNIAD



CROESO i rifyn cyntaf cyhoeddiad technegol newydd Cyswllt Ffermio ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Wedi'i gyhoeddi bob yn ail fis, bydd yn cynnwys ffeithiau a ffigyrau hawdd i'w defnyddio yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion technegol, ynghyd â'r wybodaeth a'r ymchwil diweddaraf o'n Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth newydd, gyda'r nod o atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng ymchwilwyr a'r sectorau fferm a choedwigaeth.

Bydd hefyd yn cynnwys diweddiariadau a chanlyniadau sy'n deillio o dreialon a gynhelir ar Safleoedd Arddangos ledled Cymru, sy'n anelu at dreialu a phrofi arloesedd a thechnoleg newydd mewn sefyllfa ymarferol a masnachol.

Gobeithiwn y bydd ein cyhoeddiad technegol CFF yn cynnig trosolwg i chi ynglŷn ag agweddau technegol y prosiect, gan eich galluogi i gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf fydd yn fanteisiol i'ch busnes.

Yr Athro E. Wynne Jones

Cadeirydd Bwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

Cyswllt Ffermio

- rhaglen gefnogaeth newydd, estynedig i ffermwyr a choedwigwyr yng Nghymru.

Cofrestrwch ar gyfer y rhaglen newydd heddiw!

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Ffocws ar Safle Arloesedd



INNOVIS Ŵyna'n Hwyrach

GALL ffermwr a choedwigwyr yng Nghymru nawr wella'u busnesau trwy gael mynediad at yr ymchwil a'r datblygiad blaengar diweddaraf trwy Safleoedd Arloesedd newydd Cyswllt Ffermio.

Bydd yr wyth Safle Arloesedd a leolir mewn prifysgolion, colegau a safleoedd ymchwil ledled Cymru, yn cynnal prosiectau a threialon gan ddefnyddio'r arloesedd a'r dechnoleg ddiweddaraf o fewn amaeth a choedwigaeth, a fydd yn gallu cael eu gweithredu ar ffermydd Cymreig.



Un o'r Safleoedd Arloesedd yw Innovis yn Aberystwyth. Mae gan Innovis brofiad helaeth o ganfod a defnyddio'r ymchwil a'r dechnoleg ddiweddaraf yn ymwneud â bridio defaid i wneud y mwyaf o berfformiad y ddiadell.



O'r safle ym Mheithyll, Capel Dewi, mae Innovis yn cadw'r ddiadell sydd wedi'u cofnodi ar sail perfformiad fwyaf yn y DU, yn cofnodi dros 40 nodwedd yn ei gnwyllyn o 1,500 o famogiaid elitaidd, sy'n cael eu ffermio'n fasnachol ar 1000

troedfedd, ac yn ŵyna tu allan. Mae'r ddiadell yn tyfu'n sydyn, gyda 2,200 o famogiaid magu wedi eu cofnodi mewn unedau llusoi yn 2014, gan ddefnyddio rhaglenni trawsblannu embryon gydag ofylid lluosog i gynyddu enillion genynnol.

Mae Innovis yn gweithio gyda channoedd o ffermwyr blaengar ledled y DU i wella geneteg, ac yn y pen draw i gynyddu cynhyrchiant. Trwy weithio fel Safle Arloesedd, mae Innovis yn gobeithio cynorthwyo'r diwydiant i greu cynllun penodedig ar gyfer datblygiad yn y sector defaid i wneud busnesau'n fwy effeithlon a phroffidiol.

Mae'n ffordd hollol wahanol o fridio, cadw a marchnata defaid o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei wneud yn y DU ar hyn o bryd. Gobeithio y gallwn gynorthwyo'r diwydiant i archwilio technolegau newydd ac i ddangos y gwahaniaeth y gall arloesedd, geneteg ac arfer dda ei wneud i nifer o ffermwyr defaid bridio a masnachol.

Dewi Jones,
prif weithredwr Innovis.



Bydd un o'r prosiectau Safle Arloesedd cyntaf i'w cynnal gan Innovis yn astudio a oes unrhyw fanteision i ŵyna'n hwyrach. Mae'r prosiect yn anelu at ganfod goblygiadau cost a chynhyrchiant ŵyna ddiweddedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf, o'i gymharu â'r arfer mwy confensiynol o ŵyna yn y gwanwyn ym mis Mawrth ac Ebrill.



Mae'r prosiect yn gallu peri risg sylweddol gan y gall ŵyna yn hwyrach effeithio'n sylweddol ar ganrannau ŵyna a phrisiau, gan fod yr ŵyn yn cael eu gwerthu gymaint yn hwyrach nag arfer. Fodd bynnag, gall fod manteision sylweddol hefyd i'r diwydiant trwy ddod yn fwy cystadleuol a chael cyflenwad mwy parhaus o ŵyn ar gyfer y farchnad drwy gydol y flwyddyn.

Bydd diweddiariadau rheolaidd ynglŷn â'r prosiect hwn ar gael ar ein gwefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio

GALL ffermwyr yng Nghymru gynyddu cynnyrch eu glaswellt a gwneud arbedion sylweddol ar ddwysfwd a gwrtaith wedi'i brynu i mewn, drwy sicrhau'r cydbwysedd cywir o faetholion yn eu priddoedd.

SAMPLU PRIDD

2450

SAMPL PRIDD
wedi'u casglu

5.77

oedd pH cyfartalog
Y PRIDDOEDD A BROFWYD



30% YN UNIG

o'r pridd a brofwyd odd â'r
CYDBWYSEDD pH CYWIR

70% o briddoedd
yn perfformio i

50-70%

o'u potensial yn unig



Felly, at beth ddylwn i ei anelu?

6-6.5 pH delfrydol
ar gyfer priddoedd mwynol

5.3-5.7 yn ddefrydol
ar gyfer priddoedd mawnog

1 tunnell o galch/erw
i roi cynnydd o **0.2** uned yn lefel
pH y pridd

Dewiswch gynnyrch calchu
gyda gwerth niwtraleiddio
rhwng **50-55%**

ARBEDWCH ARIAN

DRWY LEIHOU DEFNYDD
O WRTEITHIAU CYFANSAWDD
SY'N GOR-GYFLENWI
NITROGEN A FFOSSFAD



Mae canlyniadau o 2450 sampl a gymerwyd o gaeau ledled Cymru yn dangos mai 57 yn unig a ddisgynnodd o fewn yr amrediad darged ar gyfer pedwar maetholyn allweddol, gan fod mewn perygl o leihau enillion oherwydd llai o botensial twf. Fodd bynnag, gall rheoli maetholion gyda gwell defnydd o wrtaith a thail gynyddu cynnyrch porthiant, lleihau'r angen am ddwysfwd wedi'i brynu ac arbed arian.

Y ffactor pwysicaf yw pH y pridd. Y pH delfrydol i gael y cynnyrch ar ansawdd gorau o borfeydd rhygwellt a meillion yw 6-6.5 ar gyfer pridd mwynol a 5.3-5.7 ar gyfer priddoedd mawnog. Dim ond 30% o'r priddoedd a brofwyd oedd â'r cydbwysedd cywir, gyda'r gweddill yn cyflawni rhwng 50-70% o'u potensial yn unig.

Mae calch yn codi lefelau pH ac yn cynyddu cynhyrchiad glaswelltir. Dewiswch gynnyrch calchu gyda gwerth niwtraleiddio rhwng 50-55%

ar gyfer gwell effeithiolrwydd. Bydd gwasgaru tunnell o galch i bob erw yn dangos cynnydd o 0.2 uned yn y mynegai pH, ond ni ddylid gwasgaru mwy na dwy dunnell/erw ar y tro.

Bydd sicrhau'r cydbwysedd pH cywir hefyd yn cael effaith sylweddol ar elfennau allweddol eraill megis ffosffad a photasiwm (potash).

Mae ffosffad yn hanfodol ar gyfer datblygiad gwreiddiau planhigyn a defnydd egni. Er bod 36% o'r caeau a brofwyd yn cyrraedd y lefel darged o fynegai o 2, roedd 37% dros y lefel, sydd yn ddiangen ac yn aneconomaidd. Gallai nifer o ffermwyr wneud arbedion sylweddol a chynyddu cynnyrch trwy leihau neu roi'r gorau i ddefnyddio gwrteithiau ffosffad.

Mewn cyferbyniad, roedd ffigyrau potash yn llai na'r lefel mynegai angenrheidiol. Mae potash yn hanfodol ar gyfer rheoli dŵr a symudiad maetholion o amgylch y planhigyn. Mae lefelau uchel yn angenrheidiol ar gaeau silwair, ond

dylai fod yn is ar dir pori i osgoi'r perygl o hypomagnesaemia (y ddera). Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos bod gan gaeau pori lefelau potash uwch na'r angen ac nad oedd caeau silwair yn cael digon ohono, gyda'r defnydd o wrteithiau cyfansawdd yn cael y bai am y diffyg cydbwysedd mewn mwynau.

Mae cynaeafu silwair hefyd yn cael effaith ar y pridd, gyda phob tunnell o borthiant cynnyrch sych 30% yn tynnu 2.1kg o ffosffad a 7.2kg o botash. Gyda thunnell o dail 25% cynnyrch sych yn cynnwys 1.9kg o ffosffad a 7.2kg potash, mae'n hanfodol i ailgyflenwi maetholion, ond dros sawl toriad, ni all y tail gynnal dirywiad potash ac mae gwrteithiau cyfansawdd yn gallu gorgyflenwi nitrogen a ffosffad. Dangosodd y canlyniadau lefelau digonol o fagnesiwm, gyda 46% yn cyrraedd y mynegai darged o 2, a 43% ar fynegai 3, o dan y lefel lle y gellir effeithio ar ansawdd pridd.

Fe gynghorir ffermwyr i samplu chwarter o'u fferm bob blwyddyn mewn cylchdro i gynnal pridd cytbwys.



Mae rheolaeth cynyddu a glaswelltir technegol yn gategori sydd wedi ei gymeradwyo fel rhan o Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio. Mae cymhorthdal o 80% ar gael hyd at 1500 Ewro ar gyfer pob achos o gyngor i bob busnes cymwys. Mae cynllunio pridd a maetholion ar gael, gan gynnwys samplu priddoedd a slyri.

Mae Clinigau Priddoedd a Glaswelltir hefyd ar gael i fusnesau cymwys sydd wedi cofrestru. Bydd eich Swyddog Datblygu lleol yn cymryd pum sampl am ddim; yna byddwch yn casglu eich canlyniadau ac adborth gan arbenigwr pridd a glaswelltir yn eich cyfarfod lleol. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol i gofrestru eich diddordeb, neu am fwy o fanylion ewch draw i'n gwefan, neu cysylltwch â'r **Ganolfan Wasanaeth** ar **08456 000 813**.

MESUR I REOLI

MAE cynllun cofnodi data newydd ar fin ei gwneud hi'n haws i ffermwyr wella eu busnesau.

Mae'r ffigyrau diweddaraf o'r Arolwg Busnes Fferm yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng cynhyrchwyr traean uchaf a thraean isaf o ran elw.

Mae ffermwyr wedi cael eu hannog dros y blynyddoedd i adnabod perfformiad ffisegol ac ariannol eu fferm, a nawr, mae adnodd newydd Cyswllt Ffermio, 'Mesur i Reoli' yn cynnig system syml a chyflawn o gofnodi gwybodaeth, a fydd yna'n gallu cael ei gymharu â mentrau tebyg er mwyn gweld pa gamau fyddai'n cynorthwyo i wella busnesau.

Er bod ffermwyr yn y gorffennol wedi bod yn dueddol o osgoi cynlluniau meicnodi eraill oherwydd yr amser angenrheidiol i fewnbynnu data, y gobaith yw y bydd y system 'Mesur i Reoli' yn fwy hwylus i'w ddefnyddio. Bydd ffurflenni casglu data cam wrth gam yn ei gwneud hi'n haws i gofnodi gwybodaeth mewn darnau bychain drwy gydol y flwyddyn

gynhyrchu. Er enghraifft, er mwyn ei gwneud hi'n haws ar gyfer mentrau biff a defaid, bydd y rhaglen yn dechrau yn yr hydref ac yn dilyn y flwyddyn bridio, gyda'r rhaglen laeth yn rhedeg rhwng mis Ebrill a diwedd Mawrth.

Bydd ffermwyr yn derbyn taflenni casglu data i'w cwblhau ar bapur, neu yn ddefnyddiol ar ffurf electronig drwy gydol y mis. Bydd y fformat calendr misol yn galluogi recordio unrhyw werthiant, pryniant a gweithgaredd diadell neu fuches yn sydyn ac yn hawdd fel y maent yn digwydd.

Cynigir cefnogaeth ar y fferm i gwblhau'r ffurflenni hyn, ynghyd ag anogaeth ac ymgynghoriad i drafod y canlyniadau.

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol yn canolbwyntio ar berfformiad y busnes, manteision cofnodi a chymharu data, bydd cyfres o gyfarfodydd yn canolbwyntio ar bynciau eraill a ddaw i'r amlwg yn y broses o feicnodi, megis cynhyrchiant da byw, rheolaeth tir glas neu opsiynau arallgyfeirio.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Swyddogion Technegol

Bydd wyth swyddog technegol yn darparu arbenigedd penodol i'r sector wrth ddatblygu a gweithredu treialon ar gyfer rhwydwaith safleoedd arloesedd, arddangos a ffocws Cyswllt Ffermio. Bydd pob rhifyn yn canolbwyntio ar swyddog technegol gwahanol.

Gethin Prys Davies - Swyddog Technegol Cig Coch

Wedi cael ei fagu ar fferm ddefaid a gwartheg yn Eryri, mae amaethyddiaeth wedi bod yn rhan annatod o fywyd Gethin. Bu'n aelod brwd o fudiad y ffermwyr ifanc, gan gynrychioli Eryri mewn cystadlaethau barnu stoc.

Yn dilyn cwblhau gradd BSc anrhydedd yng Ngwyddorau'r Amgylchedd ym mhrifysgol Bangor, cafodd swydd yn adran amaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ble y bu'n gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr oddi fewn y Parc. Ar hyn o bryd mae'n astudio gradd MSc mewn Cynhyrchu Bwyd yn Effeithiol a Chynaliadwy drwy gynllun 'dysgu o bellter' prifysgol Aberystwyth.


Ymunodd â Cyswllt Ffermio yn 2012, fel Hwylusydd Trosglwyddo Gwybodaeth, ac yn ddiweddar cafodd Gethin ei benodi i rôl Swyddog Technegol Cig Coch. Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar i weithio gyda ffermwyr i sicrhau fod y sector yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenllaw, nid yn unig oddi fewn Ewrop ond ar lefel byd-eang.

Mae arbenigedd Gethin yn cynnwys:

- Rheolaeth porfeydd
- Rheolaeth pridd a maetholion
- Adolygu busnes fferm
- Rheoli diadell



CYNIGIR CEFNOGAETH AR Y FFERM I GWBLHAU'R FFURFLENNI HYN.





Gweithdy Cynllunio Busnes: Cyngor ar gynllunio a pharatoi cynlluniau busnes wedi eu teilwra (mae archebu lle yn hanfodol).

11 Chwefror 2016	Y Trallwng
12 Chwefror 2016	Brynbuga
18 Chwefror 2016	Ynys Môn
19 Chwefror 2016	Y Bala

Maeth y Famog: Canolbwyntio ar fodloni anghenion y famog a sicrhau'r perfformiad gorau gan yr ŵyn.

9 Chwefror 2016 19:30 – 21:30	Maeth y Famog gyda Kate Phillips	Y Llew Coch, Dinas Mawddwy, Machynlleth, Powys SY20 9JA
10 Chwefror 2016 19:30 – 21:30	Maeth y Famog gyda Kate Phillips	Clwyd Gate Restaurant, Mold Rd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YF
16 Chwefror 2016 19:30 – 21:30	Maeth y Famog gyda John Vipond	Clwb Rygbi Llanymddyfri, Banc yr Eglwys, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin SA20 0BA
17 Chwefror 2016 19:30 – 21:30	Maeth y Famog gyda John Vipond	Gwesty Elan Valley, Cwm Elan, Rhaeadr Gwy, Powys LD6 5HN
18 Chwefror 2016 19:30 – 21:30	Maeth y Famog gyda John Vipond	Yr Eagles, Y Sgwâr, Heol yr Eglwys, Llanrwst, Conwy LL26 0LG

Sioe Deithiol EID: Galwch heibio rhwng 10:00 a 16:00 am arweiniad ynglŷn â newidiadau i ofnion deddfwriaethol EID, a sut i fanteisio ar botensial offer EID.

12 Chwefror 2016	Sioe Deithiol EID	Clwb Rygbi Llambod, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7JA
17 Chwefror 2016	Sioe Deithiol EID	Castell Carreg Cennen, Trap, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin SA19 6UA
19 Chwefror 2016	Sioe Deithiol EID	Three Salmons, Stryd y Bont, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1RY
23 Chwefror 2016	Sioe Deithiol EID	Clwb Golff Grove, Porthcawl Penybont-ar-Ogwr CF33 4RP

Am fwy o fanylion cysylltwch â Sian Tandy ar **01970 631404**
 neu drwy e-bostio sian.tandy@menterabusnes.co.uk